

Canllaw i Ganlyniadau Llwybrau Mynediad

Haf 2021

Mae'r ddogfen hon yn cynnig trosolwg o ganlyniadau ar gyfer **Llwybrau Mynediad**. Mae'n rhoi manylion ynghylch beth i'w ddisgwyl ar ddiwrnodau canlyniadau, y ddogfennaeth y byddwch yn ei derbyn, gwybodaeth am ffiniau graddau, a lle y gellir dod o hyd i gyngor ac arweiniad ychwanegol.

1. Diwrnod y Canlyniadau

i) Casglu Canlyniadau Arholiadau

Rhaid i ymgeiswyr gasglu eu canlyniadau o safle eu hysgol neu goleg, fel arfer ar Ddiwrnod Canlyniadau swyddogol y cymwysterau y maent wedi eu sefyll.

Ar gyfer Haf 2021, bydd y canlyniadau'n cael eu cyhoeddi **ddydd Iau, 8 Gorffennaf**.

Dylai ysgolion a cholegau roi gwybod i bob ymgeisydd pa drefniadau sydd ar waith ar gyfer derbyn y canlyniadau. Dylai'r ymgeiswyr hefyd gael gwybod gyda pha aelodau o staff yr ysgol neu'r coleg y dylent drafod unrhyw ymholiadau neu bryderon sydd ganddynt am unrhyw ganlyniadau. Efallai y bydd angen i drefniadau fod yn wahanol i rai blynyddoedd blaenorol, a bydd angen i'r trefniadau hyn ystyried y cyngor diweddaraf gan y llywodraeth sy'n berthnasol i'ch ardal chi.

Nid yw CBAC yn gallu darparu na thrafod canlyniadau dros y ffôn na drwy gyfathrebu ar e-bost ag ymgeiswyr neu rieni, hyd yn oed os yw'r ysgol neu'r coleg wedi cau. Dylai ymgeiswyr, felly, gadarnhau gyda'u hysgol neu goleg pryd a ble y bydd canlyniadau ar gael i'w casglu a sut a gyda phwy y gallent drafod unrhyw faterion neu bryderon.

(ii) Beth i'w ddisgwyl

Ar ddiwrnod y canlyniadau, fel arfer bydd ymgeiswyr yn derbyn darn o bapur gyda'u canlyniadau arno (gweler Atodiad 1). Canlyniadau rhagarweiniol yw'r rhain ar hyn o bryd; gall fod newidiadau yn hwyrach ymlaen, er enghraifft yn dilyn Adolygiad o Farcio neu Gymedroli. Cysylltwch â pathways@wjec.co.uk am fanylion.

iii) Sut mae'r slip yn dangos y canlyniadau?

Bydd slipiau canlyniadau yn dangos canlyniadau ymgeisydd ar gyfer pob cydran a safodd ymgeisydd yn ystod y gyfres arholiadau honno. Mae canlyniadau Llwybrau Mynediad yn cael eu hadrodd fel Llwyddiant (P) neu Llwyddo# asesiad llai (P#) ar naill ai Mynediad 1, Mynediad 2 neu Mynediad 3. Mae dyfarniad lefel 1 ar gael hefyd mewn rhai meysydd pwnc.

Mae canlyniadau unedau sy'n ffurfio'r cyfnewid yn cael eu hadrodd fel Llwyddiant (P) ond mae hefyd yn nodi nifer y credydau a enillwyd ar gyfer yr uned.

Bydd ymgeiswyr sy'n methu cyrraedd y safon ofynnol i Lwyddo yn cael dim gradd (Q).

2. Deall eich canlyniadau

Dyfernir gradd y cymhwyster ar sail cyfuno'r graddau a gyflawnir ar gyfer credyd uned. Rhoddir gwerth credyd i bob uned o 1 i 5 credyd. Er mwyn ennill y cymhwyster perthnasol mae'n ofynnol i ymgeiswyr gwblhau unedau o werth digonol i ennill y Dyfarniad (8 credyd neu fwy), Tystysgrif (13 credyd neu fwy) neu Ddiploma (37 credyd neu fwy).

Ar gyfer Haf 2021 bydd ymgeiswyr sy'n derbyn P# (asesiad llai) yn derbyn y gwerth credyd ar gyfer yr uned honno ond ni fyddant yn derbyn tystysgrif ar gyfer yr uned honno.

3. **Beth i'w wneud os yw ymgeisydd am wneud ymholiad am ganlyniad**

Mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn trafod unrhyw bryderon â'u hysgol neu goleg, swyddog arholiadau neu athro fel arfer, a phenderfynu ar yr opsiynau gorau sydd ar gael. **O ystyried y pandemig parhaus cynghorir ymgeiswyr i gysylltu'n agos â'u canolfannau i sefydlu'r ffordd orau o gysylltu â nhw yn ystod y cyfnod yn syth ar ôl y canlyniadau. Rhaid i ymgeiswyr gysylltu â'u canolfan i gael canlyniad ymholiadau am ganlyniadau. Ni all CBAC gadarnhau canlyniadau ymholiadau am ganlyniadau yn uniongyrchol i ymgeiswyr.**

Os teimlir bod gwall wedi digwydd, gellir gwneud cais am

- **Adolygiad o'r cymedroli ar ôl y canlyniadau** – noder nad yw hwn ar gael ar gyfer ymgeiswyr unigol.


Am ragor o fanylion, cysylltwch â pathways@wjec.co.uk

4. **Pryd bydd tystysgrifau ar gael?**

Bydd tystysgrifau yn cael eu hanfon i ganolfannau erbyn: **Diwedd Medi**

Dylai ymgeiswyr wirio bod eu manylion personol, enw a dyddiad geni, yn gywir ar y slip canlyniadau a rhoi gwybod i'r Swyddog Arholiadau os oes unrhyw wallau. Rhaid i Swyddogion Arholiadau roi gwybod i CBAC am wallau, yn ysgrifenedig, yn ddim hwyrach na hwyrach na **9^{fed} Medi**. Os na fydd gwallau'n cael eu cywiro yn y cyfnod hwn, bydd cost am dystysgrifau newydd ar ôl eu cyhoeddi. Dylai ymgeiswyr wirio'r trefniadau ar gyfer derbyn eu tystysgrifau gyda'u hysgol neu goleg.

Atodiad 1 – Enghraifft o Slip Graddau

		SUMMARY OF RESULTS ENTRY PATHWAYS JUNE 2017																													
CENTRE NO. 68999	CENTRE NAME Test Centre																														
CANDIDATE NO. 40008	CANDIDATE NAME Forename Surname	DATE OF BIRTH 21/04/98																													
CANDIDATE UCI		CANDIDATE ULN																													
<table border="1"> <thead> <tr> <th></th> <th></th> <th>Credits</th> <th>Grade</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>PERSONAL PROGRESS</td> <td>ENTRY 1 CERT. CASH IN 6000/C1</td> <td></td> <td>P</td> </tr> <tr> <td>INDEPENDENT LIVING</td> <td>ENTRY 2 AWARD CASH IN 6002/A2</td> <td></td> <td>P</td> </tr> <tr> <td>LIVING SKILLS: YOUR OWN HOME</td> <td>ENTRY 1 6062/E1 002</td> <td></td> <td>P</td> </tr> <tr> <td>LIVING SKILLS: BRING HEALTHY</td> <td>ENTRY 1 6063/E1 002</td> <td></td> <td>P</td> </tr> <tr> <td>SKILLS FOR WORK: GET THINGS DONE</td> <td>ENTRY 1 6064/E1 004</td> <td></td> <td>P</td> </tr> <tr> <td>SKILLS FOR WORK FOLLOW INSTRUCTION</td> <td>ENTRY 1 6065/E1 002</td> <td></td> <td>P</td> </tr> </tbody> </table>						Credits	Grade	PERSONAL PROGRESS	ENTRY 1 CERT. CASH IN 6000/C1		P	INDEPENDENT LIVING	ENTRY 2 AWARD CASH IN 6002/A2		P	LIVING SKILLS: YOUR OWN HOME	ENTRY 1 6062/E1 002		P	LIVING SKILLS: BRING HEALTHY	ENTRY 1 6063/E1 002		P	SKILLS FOR WORK: GET THINGS DONE	ENTRY 1 6064/E1 004		P	SKILLS FOR WORK FOLLOW INSTRUCTION	ENTRY 1 6065/E1 002		P
		Credits	Grade																												
PERSONAL PROGRESS	ENTRY 1 CERT. CASH IN 6000/C1		P																												
INDEPENDENT LIVING	ENTRY 2 AWARD CASH IN 6002/A2		P																												
LIVING SKILLS: YOUR OWN HOME	ENTRY 1 6062/E1 002		P																												
LIVING SKILLS: BRING HEALTHY	ENTRY 1 6063/E1 002		P																												
SKILLS FOR WORK: GET THINGS DONE	ENTRY 1 6064/E1 004		P																												
SKILLS FOR WORK FOLLOW INSTRUCTION	ENTRY 1 6065/E1 002		P																												

1

2

3

4

5

1	Yn dangos y cymhwyster/uned y cofrestrwyd yr ymgeisydd amdano/amdani.
2	Yn dangos yr opsiwn y cofrestrwyd yr ymgeisydd amdano. Os nad yw'r Pwnc wedi'i ddangos mewn print trwm, mae'n golygu ei bod yn uned sy'n cyfrannu at y cymhwyster cyffredinol
3	Yn dangos cod pwnc y cymhwyster/uned
4	Yn dangos nifer y credydau a enillwyd am yr uned. Ni fydd pynciau mewn print trwm yn dangos credydau, y rhain yw'r cymwysterau llawn.
5	Yn dangos y radd am y cymhwyster/uned. Mae P yn dynodi gradd Llwyddo yn y cymhwyster neu'r uned. Mae gradd Q yn dangos na chyflawnwyd y cymhwyster/uned eto.